



Cynllun **Hawl i Wneud Cais i Weithio'n Hyblyg**

Canllawiau i Benaethiaid

CYNNWYS

Cyflwyniad.....	1
Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogwyr.....	1
Cwestiynau Cyffredin	1
Siart Llif o'r Weithdrefn – Sut mae'r broses yn gweithio?	5

1. **CYFLWYNIAD**

Bwriad y canllawiau yw helpu Penaethiaid i weithredu'r cynllun. Dylen nhw gael eu defnyddio ochr yn ochr â'r Cynllun Hawl i Wneud Cais i Weithio'n Hyblyg. Ddylen nhw ddim cael eu hystyried yn ddatganiad awdurdodol o'r gyfraith.

Dylai Penaethiaid sicrhau eu bod nhw wedi darllen y Cynllun Hawl i Wneud Cais i Weithio'n Hyblyg a'u bod yn gyfarwydd â'i gynnwys.

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogwyr

Hawliau Cyflogwyr

- Gwrthod cais pan na fydd modd darparu ar gyfer y patrwm gwaith y mae'r ceisydd yn gofyn amdano o fewn anghenion y busnes
- Ceisio cydsyniad y gweithiwr i estyn amserlenni lle bo hynny'n briodol
- Ystyried tynnu cais yn ôl dan amgylchiadau penodol

Cyfrifoldebau Cyflogwyr

- Ystyried ceisiadau yn briodol yn unol â'r weithdrefn osodedig
- Sicrhau eu bod yn glynu wrth y terfynau amser yn y weithdrefn osodedig
- Rhoi cymorth a gwybodaeth priodol i'r gweithiwr yn ystod y broses cyflwyno cais.
- Gwrthod cais dim ond lle mae rheswm busnes cydnabyddedig ac esbonio i'r gweithiwr mewn ysgrifen pam ei fod yn berthnasol
- Sicrhau bod unrhyw amrywiad â'r weithdrefn yn cael ei gytuno ymlaen llaw gyda'r gweithiwr a'i fod yn cael ei gofnodi mewn ysgrifen

2 **CWESTIYNAU CYFFREDIN**

Pwy sy'n gymwys o dan y Cynllun?

Er mwyn cyflwyno cais o dan yr hawl statudol, bydd rhaid i'r gweithiwr fodloni'r meini prawf isod:

- Rhaid iddo fod yn weithiwr cyflogedig
- Rhaid ei fod e wedi gweithio i'r Cyngor/Corff Llywodraethu am 26 wythnos yn olynol erbyn dyddiad gwneud y cais (dydy gweithwyr asiantaeth ddim yn gymwys o dan y cynllun)
- Rhaid ei fod e heb wneud cais i weithio'n hyblyg o dan yr hawl yma, yn ystod y 12 mis diwethaf

Pa mor aml all cais gael ei gyflwyno?

Gall cais gael ei gyflwyno unwaith y flwyddyn. Mae pob blwyddyn yn para o'r dyddiad y cafodd y cais ei wneud.

Pa fath o newidiadau fydd hi'n bosibl gwneud cais amdany'n nhw?

Mae modd gwneud cais am amrywiaeth eang o wahanol fathau o batrymau gwaith. Mae modd i weithwyr cymwys wneud cais i:

- Newid nifer yr oriau maen nhw'n eu gweithio
- Newid yr amseroedd pan mae'n ofynnol i weithio

Gallai cais fod mor syml â gofyn am ddechrau hanner awr yn hwyrach nag arfer i ganiatáu i'r gweithiwr fynd â'i blentyn i'r ysgol. **Mae'n bwysig cydnabod bod Gweithio'n Hyblyg yn cynnwys amrywiaeth eang o arferion gweithio ac y gall unrhyw batrwm gwaith sy'n wahanol i'r patrwm gwaith arferol fod yn drefniant gweithio hyblyg.**

Am faint o amser mae'r newidiadau (sydd wedi'u cytuno) yn para?

Os yw cais yn cael ei dderbyn o dan y cynllun, mae'r newidiadau yn **barhaol** a dylai hyn gael ei bwysleisio i'r ceisydd.

Beth os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag effaith y newidiadau ar y gwasanaethau?

Os ydych chi'n ansicr ynglŷn â'r effaith y byddai caniatáu'r cais yn ei chael ar y gwasanaeth, yna mae'n bosibl i chi a'r ceisydd gytuno ar gyfnod prawf. **(Gweler 2.8 a 2.9 o'r Cynllun).**

Oes modd i weithiwr ofyn am newid dros dro?

Mae'n bosibl y bydd angen i gyflogwr newid ei batrwm gwaith dros dro oherwydd problem benodol nad oes disgwyl iddi hi fod yn barhaol. Ddylai cais o'r fath **ddim cael ei ystyried o dan y Cynllun yma.**

Fel Pennaeth, dylech chi ymdrin â'r math yma o gais mewn ffordd gydymdeimladol a chefnogol ar y cyd â Chadeirydd y Llywodraethwyr a Phwyllgor priodol y Corff Llywodraethu, gan ystyried anghenion y gweithiwr ynghyd ag anghenion y gwasanaeth. Dylai unrhyw ganiatâd am newid dros dro gael ei osod allan yn glir (mewn ysgrifen) ynghyd â'r terfyn amser a gafodd ei gytuno. Dylai'r sefyllfa gael ei monitro'n rheolaidd. Os daw newid dros dro yn ofyniad parhaol, yna dylai cais gael ei gyflwyno yn unol â'r Cynllun Hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg.

Os ydych chi'n ansicr, siaradwch â'ch swyddog Adnoddau Dynol am gyngor.

Pwy fydd yn ystyried y cais?

At ddiben y cynllun, bydd modd i chi fel Pennaeth (Cadeirydd y Llywodraethwyr os y Pennaeth sy'n gwneud y cais) gyflwyno argymhelliad i Bwyllgor Adnoddau Dynol y Corff Llywodraethu i ystyried y cais.

All cais gael ei wrthod?

Gall, ond dim ond lle bo rheswm busnes amlwg. Mae rhestr o resymau o'r fath yn 2.7 o'r Cynllun.

Oes terfynau amser ar gyfer ystyried ceisiadau?

Oes. Fe welwch chi'r rhain yn Adran 3.1 o'r Cynllun ac mae siart llif o'r weithdrefn yn y canllawiau yma.

All terfynau amser gael eu hestyn?

Gall - ond dim ond os yw hyn yn cael ei gytuno rhyngoch chi a'r ceisydd. Os ydych chi'n absennol o'r gwaith pan fydd y cais yn cael ei dderbyn, yna, bydd y terfynau amser yn weithredol o'ch dyddiad dychwelyd, neu 28 diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, p'un bynnag yw'r cynharaf.

Sut rydw i'n ystyried cais?

Rhaid i chi gynnal cyfarfod gyda'r ceisydd. Fe welwch chi'r union weithdrefn i'w dilyn yn Adran 3.1 o'r Cynllun.

Oes modd i geisydd gael cwmni yn y cyfarfod?

Oes. Rhaid i'r unigolyn hwnnw fod naill ei'n gydweithiwr neu Gynrychiolydd Undeb Llafur. Bydd hawl gan yr unigolyn sy'n dod yn gwmni annerch y cyfarfod neu siarad â'r gweithiwr yn ystod y cyfarfod, ond chaiff hwnnw/honno ddim ateb cwestiynau ar ran y gweithiwr. (Gweler Adran 3.1 o'r Cynllun).

All ceisydd apelio os caiff y cais ei wrthod?

Gall. Mae'r weithdrefn a'r terfynau amser i'w gweld yn Adran 3.1 o'r Cynllun.

Pwy fydd yn ystyried yr apêl?

Y Pwyllgor Materion Cwyno ac Apeliadau fydd yn ystyried yr apêl, ynghyd â swyddog Adnoddau Dynol a fydd yn bresennol er mwyn rhoi cyngor yn unig.

All cais gael ei dynnu'n ôl?

Gall, ond dim ond tri rheswm sydd dros ystyried cais yn un sydd wedi'i dynnu'n ôl. Mae'r rhain yn cael eu nodi yn Adran 3.3 o'r Cynllun.

SIART LLIF O'R WEITHDREFN – SUT MAE'R BROSES YN GWEITHIO?

